I sylw rhieni rhieni blwyddyn 5 a 6/
Medi 10fed 2020/ September 10th 2020
Annwyl riant,

Thema: Rhyfel a Heddwch
Y tymor hwn rydym yn canolbwyntio ar y thema 'Rhyfel a heddwch'. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar hanes ac yn dysgu plant am wrthdaro yn y gorffennol gan ganolbwyntio yn bennaf ar yr Ail Ryfel Byd. Byddwn yn dysgu am y rhesymau dros ryfel, yr effaith ar fywyd bob dydd pobl gan gynnwys plant, ac am unigolion pwysig yn ogystal ac effaith cymdeithasol a dynol. Wrth wraidd y thema bydd y plant yn ysgrifennu darnau naratif yn seiliedig ar ffeithiau hanesyddol. Bydd cyfle hefyd i ddysgu am effaith rhyfeloedd eraill yn y gorffennol.

Yn y thema hwn bydd y plant yn dysgu am:

- y rhesymau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd a gyfrannodd at ryfeloedd;
- cronoleg gwrthdaro;
- effaith rhyfeloedd ar fywyd bob dydd pobl gyffredin yng Nghymru;
- bobl bwysig a chwaraeodd rhan hanfodol yn ymdrechion rhyfel Cymru;
- ystod o ffynonellau i ddarganfod gwybodaeth.

Mae llais y plentyn yn bwysig i ni. Mae'r linc isod yn rhoi cyfle i chi a'ch plentyn gynnig syniadau ar y thema:
https://forms.gle/TJ2zyN3XuTkjenNa8

Mae angen dillad addas ar gyfer Addysg Gorfforol ar Ddydd Gwener. Yn ystod y cyfnod hwn mae croeso i'r plant gadw eu gwisg addysg gorfforol mewn bag arwahan ar eu peg yn yr ystafell newid.

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod drwy Google Classroom ar Ddydd Gwener i'w gyflwyno ddim hwyrach na Dydd Mercher.

Gyda diolch i chwi am eich cydweithrediad arferol.
HE Jones/Sue Legge (Athrawon Dosbarth)